# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Cornel**

**Treharris**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tŷ Cornel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 2 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [31 Ionawr 2023] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae canlyniadau llesiant y bobl yn rhagorol ac maent yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n bersonol. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu cynnwys ym mhob agwedd ar gynllunio a datblygu'r gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon.

Mae ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn eithriadol, ac mae'r staff cymorth yn fedrus wrth roi dulliau cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith. Mae gan y bobl eu cynlluniau personol unigol eu hunain, ac mae'r gwasanaeth yn addasu prosesau er mwyn galluogi'r bobl i gymryd rhan mewn adolygiadau mewn ffordd arloesol.

Mae'r amgylchedd wedi cael ei ddylunio gyda'r bobl ac er mwyn diwallu eu hanghenion a hybu eu llesiant. Mae cymhorthion cyfathrebu ar gael ac yn cael eu defnyddio'n gyson gan y bobl a'r staff cymorth.

Mae rheolaeth ac arweinyddiaeth y cartref yn neilltuol. Mae arferion sicrhau ansawdd eithriadol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n gyson a bod y bobl yn cyflawni eu llawn botensial.

## Llesiant

Mae llesiant y bobl yn rhagorol ac maent yn cael eu galluogi i gyflawni eu nodau personol yn gyson. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cymryd rhan ym mhob penderfyniad ynghylch eu gofal a'u cymorth. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth i'r bobl mewn ffordd sy'n addas ar eu cyfer, ac mae gan y staff cymorth y sgiliau i allu diwallu anghenion cyfathrebu'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn addasu ei brosesau ar gyfer cynllunio ac adolygu cymorth mewn ffordd arloesol er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r bobl. Mae'r staff cymorth yn trin y bobl ag urddas a pharch, ac fel unigolion â'u cryfderau, eu dewisiadau a'u safbwyntiau eu hunain.

Caiff y bobl eu galluogi i fod yn iach ac yn egnïol mewn ffordd y maent yn ei mwynhau ac sy'n addas iddynt. Mae'r staff cymorth yn galluogi'r bobl i ddeall beth mae'n ei olygu i fod yn iach a pham ei fod yn bwysig. Yn ddiweddar, gosododd unigolyn nod i gerdded hyd copa Pen-y-Fan a chafodd gymorth i greu a dilyn cynllun hyfforddi gan gwblhau'r daith yn llwyddiannus o ganlyniad.

Mae'r gwasanaeth yn rhagori wrth ddarparu cymorth gweithredol i'r bobl, ac mae'r bobl yn datblygu sgiliau bywyd yn barhaus ac yn dod yn fwy annibynnol o ganlyniad i hynny. Mae cynllunwyr dyddiol gweladwy ar waith ar gyfer pob unigolyn, ac mae'r bobl yn mwynhau dilyn trefn y gellir ei rhagweld. Os bydd newidiadau i'r drefn, mae'r staff cymorth yn helpu'r bobl i i'w deall ac i wneud cynlluniau amgen. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i feithrin eu sgiliau Cymraeg, gyda'r bobl a'r staff cymorth yn dysgu'r iaith gyda'i gilydd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag aelodau teulu, er mwyn rhoi cysondeb a gwasanaeth pwrpasol a chyfannol i'r bobl. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi a gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn. Mae gan y gweithwyr cymorth ddealltwriaeth glir o'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn defnyddio eu cymuned leol ac yn cyfrannu ati, ac mae'r gwasanaeth yn eu galluogi i ymgymryd â ‘gweithredoedd caredig ar hap’ ac i ddathlu digwyddiadau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom y bobl yn cael eu canmol ac yn cael adborth cadarnhaol gan eu cymuned mewn perthynas â hyn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol gan weithwyr cymorth medrus a hyfforddedig. Mae'r model cymorth a ddarperir i'r bobl wedi'i amlinellu'n glir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth, a gwelsom gymorth ymarferol yn cael ei roi mewn ffordd fedrus drwy gydol ein hymweliad. Dywedodd perthynas wrthym sut mae sgiliau bywyd ac annibyniaeth yr aelod o'i deulu wedi datblygu ers symud i gartref Tŷ Cornel a dywedodd, *"They are doing more for themselves than they have ever done before."*

Mae prosesau asesu a throsglwyddo trylwyr ar waith i'r bobl sy'n symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r cynlluniau trosglwyddo wedi'u teilwra at anghenion yr unigolyn ac yn ystyried cydnawsedd â'r bobl eraill. Caiff cymorth ei ddarparu hefyd i'r bobl pan fydd unigolyn yn trosglwyddo i'r gwasanaeth, sydd wedi arwain at brofiadau cadarnhaol i bawb.

Gall y bobl fod yn hyderus bod gan y darparwr gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y dylid darparu cymorth er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cynlluniau hyn yn ddigon manwl ac yn canolbwyntio ar gryfderau'r bobl, ac mae'r bobl, eu perthnasau ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â nhw yn cytuno ar y cynlluniau hyn. Mae'r gwasanaeth yn addasu ei broses adolygu mewn ffordd arloesol i sicrhau bod y bobl yn cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon wrth werthuso'r cymorth a gânt, a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni eu nodau personol. Gwelsom fod y bobl wedi cael eu grymuso i wneud dewisiadau bywyd ac i gyflawni twf personol o ganlyniad i hynny.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi model Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol ar waith mewn ffordd fedrus, ac mae'r bobl yn cael budd mawr o'r cymorth a ddarperir yn y ffordd hon. Gwelsom y bobl yn cyflawni ansawdd bywyd rhagorol ac yn cyflawni eu dyheadau.

Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt, ac mae'r gweithwyr cymorth yn eu helpu i fynychu'r apwyntiadau hyn. Gwelsom fod y bobl yn cael canlyniadau iechyd cadarnhaol oherwydd y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, gan gynnwys gorfod cymryd llai o feddyginiaethau.

Mae prosesau ar waith i atal y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae pob aelod o'r staff cymorth wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg a dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon sy'n cael eu codi.

Caiff asesiadau eu cwblhau gyda'r bobl i ystyried a oes angen cymorth arnynt i reoli eu meddyginiaethau. Lle bo angen y cymorth hwn, mae'r staff cymorth yn sicrhau y caiff meddyginiaethau eu cymryd fel y'u rhagnodir ac y cânt eu storio'n briodol.

Mae gan y gwasanaeth arferion hylendid da ar waith sy'n annog y bobl i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau hylendid da yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle gallant fod yn gwbl annibynnol ac sy'n eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff unrhyw newidiadau a gynigir i'r amgylchedd eu trafod â'r bobl, a chânt eu cefnogi wedyn i gael rheolaeth dros y penderfyniadau terfynol. Dywedodd perthynas wrthym; *“visits to the service are like visiting her loved ones home, and not them living in someone else’s.”*

Mae décor y cartref yn syml, yn unol â dewisiadau ac anghenion synhwyraidd y bobl ac mae'n cynnig amgylchedd hamddenol. Mae'r byrddau cyfathrebu sydd ar waith i'r bobl yn hygyrch ac yn benodol i'w hanghenion. Mae'r cymhorthion cyfathrebu hyn yn helpu'r bobl i beidio â drysu ac i ddilyn yr arferion sy'n bwysig iddynt. Mae'r rhain hefyd yn atgoffa'r bobl pa staff cymorth sy'n gweithio nawr a nesaf. Mae ardal ddynodedig yn y gwasanaeth sy'n cael ei defnyddio i ddangos ‘gair Cymraeg y dydd’ a gwelsom sut roedd yn cael ei defnyddio gan y bobl a'r staff.

Mae digon o le yn y cartref i'r bobl gerdded drwyddo heb unrhyw rwystrau neu i ddefnyddio'r gofod ar gyfer eu gweithgareddau. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain, sydd wedi'u personoli'n unol â'u dewisiadau a'u hanghenion. Gwelsom gymhorthion ymgyfarwyddo ac offer cyfathrebu wedi'u personoli yn cael eu defnyddio gan y bobl yn eu hystafelloedd gwely a oedd yn ategu'r rhai hynny yn y rhannau eraill o'r gwasanaeth.

Caiff yr ardal awyr agored ei haddasu'n barhaus i'r bobl ei mwynhau, gan hybu iechyd a llesiant. Yn ddiweddar, prynwyd seddi ar gyfer yr ardal awyr agored ar y cyd â'r bobl, gan gynnig ardal arall i eistedd, ymlacio neu dreulio amser yng nghwmni ymwelwyr. Mae'r bobl wedi cael eu cynnwys mewn gwelliannau diweddar i'r ardd, gan gynnwys peintio'r wal allanol a chreu arddangosfa blodau. Dywedodd un unigolyn wrthym cymaint y mae'n mwynhau treulio amser yn yr ardd.

Rhoddwyd sgôr o bump i'r gegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda iawn. Mae'r gegin yn adlewyrchu'r hyn y byddech yn ei weld mewn cartref traddodiadol, a gall y bobl ei defnyddio fel y mynnant. Mae hyn yn galluogi'r bobl i ddatblygu eu sgiliau byw bob dydd a'u sgiliau annibyniaeth ymhellach. Gwelsom y bobl yn gwneud eu prydau eu hunain ac yn cwblhau tasgau domestig.

Mae'r darparwr yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae systemau cadarn ar waith sy'n sicrhau bod y cyfleusterau yn y cartref o safon ddiogel. Caiff larymau tân eu profi bob wythnos, ac mae'r gwasanaeth yn gofyn i asiantaeth allanol gwblhau asesiad risg diogelwch tân. Gwelsom fod y rheolwr yn goruchwylio'r systemau hyn yn effeithiol ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gwiriadau diogelwch er mwyn hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad personol. Ceir hefyd ‘hyrwyddwyr mewnol’ ar gyfer rheoli heintiau, diogelwch tân, hylendid bwyd, cadw tŷ, a'r ardaloedd allanol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu rhagorol ar waith er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel yn gyson ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad.

Mae gan y gwasanaeth dîm rheoli ac arwain sefydlog, sy'n ymrwymedig i feithrin a chynnal diwylliant cadarnhaol a safonau uchel yn y cartref. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod y cymorth gan y tîm rheoli yn rhagorol, gan nodi ei fod yn *"Fantastic"* a *"Supportive."* Cawsom wybod fod y rheolwr yn mentora aelod o staff er mwyn helpu'r gweithiwr cymorth i ddatblygu, a dywedodd, *"They are behind me and my career development 100%."* Mae'r gweithwyr cymorth yn cael cyfle i ymgymryd â rôl 'hyrwyddwr', gan gymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio maes penodol o'r gwasanaeth. Mae llesiant y bobl a chefnogi a datblygu'r staff yn sail i benderfyniadau rheoli ac arwain.

Mae pob un o'r gweithwyr cymorth wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a gwelsom fod hyfforddiant arbenigol yn cael ei drefnu yn unol ag anghenion y bobl. Mae pob aelod o'r staff cymorth yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd, ac maent yn teimlo eu bod yn werthfawr iddynt. Mae'r staff cymorth hefyd yn cael arfarniad blynyddol, sy'n ystyried eu perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf a'u hanghenion datblygu gyrfa unigol. Mae prosesau ar waith i'w dilyn os bydd materion perfformiad yn codi, ac mae'r rheolwr yn eu rhoi ar waith yn ôl yr angen.

Mae'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn gadarn ac yn ystyrlon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn ffurfiol yn rheolaidd ac yn cwblhau Adroddiad ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn o safon uchel tu hwnt ac yn casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, arsylwadau, trafodaethau â'r staff ac adolygiadau o ddogfennau. Mae gwerthoedd y gwasanaeth yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn yr adroddiadau hyn, a gwelsom fod llesiant y bobl yn hollbwysig.

Mae prosesau arloesol ar waith i sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl mewn ffordd ystyrlon ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i ddatblygu. Dywedodd y bobl wrthym am eu profiadau yn y cyfarfodydd hyn ac am enghreifftiau lle rhoddwyd eu hawgrymiadau ar waith.

Mae'r bobl yn cael help gan staff cymorth sy'n canmol eu rolau ac sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae gan bob aelod o'r staff cymorth wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru – rheoleiddiwr y gweithlu. Mae aelodau newydd o staff cymorth yn cael cyfnod sefydlu trylwyr ar gyfer y rôl ac yn treulio amser yn dod i adnabod y bobl cyn eu cefnogi.

Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i arwain y staff cymorth yn eu rolau. Mae hyn yn cynnwys polisi diogelu ac mae'r staff yn ymrwymedig i gadw'r bobl yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/10/2024